# Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014

**2014 dccc 6**

*Amrywiol*

## 13 Adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf hon

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod adolygu, osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf hon yn ystod y cyfnod hwnnw.

(2) Rhaid i'r adroddiad, yn benodol, gynnwys gwybodaeth am yr effaith y mae gweithrediad y Ddeddf hon wedi ei chael ar—

- (a) gweithwyr amaethyddol,
- (b) cyflogwyr gweithwyr amaethyddol, ac
- (c) y sector amaethyddol yn gyffredinol.

(3) Cyn llunio'r adroddiad, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r adroddiad gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gyhoeddi'r adroddiad yn y modd sy'n briodol yn eu barn hwy.

(5) Yn yr adran hon ystyr "y cyfnod adolygu" yw'r cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'r Ddeddf hon i rym.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 13 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 19**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 30/07/2014.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014, Adran 13.